**P-05-1047 Gadewch i dafarndai a bariau fasnachu, a chanslo'r cyrffyw**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Adam Smith, ar ôl casglu cyfanswm o 750 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae trwyddedeion bariau a thafarndai yn dilyn gweithdrefnau llym er mwyn masnachu, ac i wneud yn siŵr bod staff a chwsmeriaid yn cael eu diogelu ar bob adeg.

Gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ychwanegol ar waith, mae trwyddedeion ledled y wlad wedi dangos eu bod yn gallu gwneud hynny gan barhau i fasnachu, cadw eu lleoliadau ar agor a sicrhau swyddi.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Yn ôl dogfennau SAGE, mae arbenigwyr wedi wfftio'r syniad o gyrffyw am ddeg o'r gloch yr hwyr ar gyfer tafarndai, bariau a bwytai cyn iddo gael ei roi ar waith ledled Lloegr.
www.independent.co.uk/news/health/coronavirus-3-tier-lockdown-new-restrictions-boris-johnson-sage-curfew-b1012869.html%3Famp

Mae'r Prif Weinidog ei hun wedi dweud nad oes unrhyw beth sy'n profi bod cysylltiad rhwng cynnydd mewn achosion â bariau, tafarndai a bwytai.
Mae'r Prif Weinidog, Mark Drakeford yn honni bod tystiolaeth yn ardal Heddlu Gwent yn dangos nad yw'r nifer cynyddol o achosion yn cael eu hachosi gan dafarndai a bwytai.
https://www.walesonline.co.uk/whats-on/food-drink-news/newport-lockdown-gwent-pubs-hospitality-19078374

Yn ôl lleoliadau, bu gostyngiad o 93% ers mis Awst, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gydag ychydig iawn o gefnogaeth ar gael, ac yn wyneb ansicrwydd, mae hyn yn achosi mwy o bryder a straen i berchnogion o fewn y sector lletygarwch.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganslo'r cyrffyw 10pm, gadael i leoliadau fasnachu yn unol â'u trwyddedau ac achub ein heconomi gyda'r nos.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Casnewydd
- Dwyrain De Cymru